Newid Sylweddol yn y Modd yr Eir i'r Afael â bTB yng Nghymru: Gwartheg, Pobl a Bywyd Gwyllt
Cyngor Cychwynnol gan Fwrdd y Rhaglen Dileu TB Gwartheg

Cyflwyniad

Yng Nghymru, *Mycobacterium bovis (M.bovis)* sy'n gyfrifol am bron pob achos o dwbercwlosis gwartheg (bTB) mewn gwartheg a bywyd gwyllt, gydag achosion achlysurol iawn mewn pobl. Mae gan Sefydliad Iechyd Anifeiliaid y Byd (WOAH) ofynion penodol[1] cyn y gellir datgan bod gwlad yn rhydd o TB yn swyddogol. Fel a amlinellodd Bwrdd y Rhaglen Dileu TB Gwartheg yn ei Bapur Sefyllfa[2] a gyhoeddwyd yng ngwanwyn 2026, mae angen newid sylweddol o ran cyflymder er mwyn i Gymru gyrraedd ei tharged i fod yn Rhydd o TB yn Swyddogol erbyn 2041.

Mae Bwrdd y Rhaglen Dileu TB wedi cael ac adolygu tystiolaeth gan Grŵp Cynghori Technegol TB Gwartheg Cymru (TAG) ac mae hefyd wedi ystyried tystiolaeth a chyngor arall sydd ar gael, gan gynnwys ystyriaethau moesegol, Diweddariad Adolygu bTB Godfray (2025)[3], Strategaeth Rheoli TB Gwartheg Lloegr (2026)[4] a Strategaeth Dileu TB Gwartheg Gogledd Iwerddon (2022)[5] a gwaith ymgynghori.

Dylai'r argymhellion hyn gan Fwrdd y Rhaglen lywio gwaith i ddiweddaru'r strategaeth ar gyfer datblygu a gweithredu polisi dileu bTB cyfannol yng Nghymru, y mae'n rhaid iddo ystyried pob un o'r tair poblogaeth yr effeithir arnynt gan bTB – gwartheg, pobl a bywyd gwyllt. Rhaid defnyddio tystiolaeth a dadansoddiad gwyddonol i esblygu polisi, gan gadw rheolaethau cenedlaethol lle y bo'n briodol ochr yn ochr ag ymyriadau mwy lleol a seiliedig-ar-dystiolaeth sydd wedi'u targedu ac yn gymesur. Dylai hyn gynnwys cryfhau'r rôl y gall ffermwyr a milfeddygon ei chyflawni i gadw TB allan o fuchesi a rheoli'r risg o'r clefyd lle mae'n digwydd, gan weithio ochr yn ochr â llywodraeth. Dylid monitro a gwerthuso newidiadau i bolisi ac ymyrraeth, gan gytuno ar fetrigau clir o ran sut y mae llwyddiant yn edrych. Mae'n hanfodol bod eu heffeithiau'n cael eu modelu i sicrhau bod cyfaddawdau'n cael eu deall a risgiau'n cael eu lliniaru, fel y gellir eu cyflwyno mewn trefn i sicrhau eu bod yn effeithiol ac nad ydynt yn effeithio'n negyddol ar reoli'r clefyd na pharhad busnes.

Er bod diweddaru'r strategaeth yn llawn yn nod tymor hwy, ceir camau gweithredu y dylid eu rhoi ar waith yn y tymor byr. Felly, dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu:

- Dewis o Ddulliau Rheoli Manylach ar gyfer Buchesi ag Achosion Parhaus
- Newidiadau i Drefniadau Profi Gwartheg
- Gwell mynediad at Unedau Bioddiogel a Chadwyn Gyflenwi Fioddiogel
- Gwasanaeth Cynghori Newydd a Chynnwys Ffermwyr a Milfeddygon Preifat Lleol yn Fwy
- Gwell Mynediad at Ddata, Gwybodaeth am Risg ac ibTB
- Casglu Data ar Rôl Bywyd Gwyllt mewn TB i Oleuo Penderfyniadau ynglŷn ag Ymyriadau Cymesur ac wedi'u Targedu
- Defnyddio Dadansoddiadau a Modelu Epidemiolegol i Ddeall Ffactorau sy'n Dylanwadu ar Drosglwyddo Clefyd ac i Fod yn Sail i Ymyriadau

Dylai'r blaenoriaethau hyn gael eu hategu gan y canlynol:

- Paratoi ar gyfer Brechu Gwartheg
- Adolygiad o Bolisi ar Adweithyddion Amhendant Llym a Gliriwyd

- Gwell Ymgysylltu ag APHA a Chymorth Rheoleiddiol
- Gwell Mynediad at Wybodaeth a Chyngor ynghylch TB
- Aliniad Rheoleiddiol

Mae rhagor o fanylion am yr argymhellion hyn wedi'u cynnwys isod.

Mae'r Bwrdd yn argymell y camau canlynol yn y chwe i ddeuddeg mis nesaf:

Gwartheg:

- **Dewis o Ddulliau Rheoli Manylach ar gyfer Buchesi ag Achosion Parhaus (EMPB)**

Dylai buchesi ag achosion parhaus (EMPBs) fod yn grŵp blaenoriaeth ar gyfer gweithredu cyflymach. Dylai ffermwyr, gan weithio'n agos gyda'u milfeddyg preifat eu hunain, gael y dewis ar sail gwybodaeth i:

i. Parhau â'r protocolau presennol ar Reoli Manylach ar gyfer Buchesi ag Achosion Parhaus

ii. Mabwysiadu dull newydd o reoli haint TB i'w waredu o'u buches trwy gyfyngiadau symud ac adnabod a rheoli ymadawiad gwartheg risg uchel gan ddefnyddio data profion TB, ochr yn ochr â mesurau eraill fel bioddiogelwch buchesi. Dylid ehangu'r defnydd o brofion preifat, anstatudol fel profion gwaed ategol yn y buchesi hyn hefyd i gwneud yn bosibl rheoli'r clefyd mewn modd mwy rhagweithiol. Ochr yn ochr â hyn, bydd gofyn gwneud gwaith pellach ar gyfer datblygu unrhyw newidiadau perthnasol i bolisi neu reolau TB i ystyried canlyniadau newidiadau o'r fath. Dylid ystyried cyfnodau hwy rhwng profion croen twbercwlin ar lefel buches yn y buchesi hyn, yn amodol ar asesiad milfeddygol ac epidemiolegol.

    Dylai'r protocol ar gyfer y dull hwn gael ei oleuo gan y profiad a'r dystiolaeth a gafwyd trwy Brosiectau Sir Benfro a Gogledd Cymru a chael ei greu ar y cyd rhwng milfeddygon, ffermwyr, APHA a Llywodraeth Cymru yn unol ag argymhellion Adolygiad Godfray (2025).

- **Newidiadau i Drefniadau Profi Gwartheg**

Dylid datblygu opsiynau i ddefnyddio gwahanol brofion TB statudol ac anstatudol ar gyfer gwyliadwriaeth, rheoli achosion a lleihau'r risg o symud.

i. Er y dylid cadw'r drefn statudol o gynnal profion croen ar fuchesi, dylid rhoi mwy o ddewis i ffermwyr a milfeddygon wrth gynnal profion TB i roi cymorth i ganfod y clefyd yn gynharach a rheoli risg yn well. Er enghraifft, byddai caniatáu mynediad at brofion TB ategol a ariennir yn breifat yn ystod achosion ac mewn buchesi OTF yn helpu i adnabod haint yn gynharach ac yn ategu penderfyniadau sy'n seiliedig ar risg. Mewn buchesi OTF, dylai gwartheg unigol a adnabuwyd fel rhai sydd wedi'u heintio neu a allai fod wedi dod i gysylltiad â bTB, gan ddefnyddio'r profion ategol, anstatudol hyn, gael eu rheoli trwy gyfyngiadau ar symud a rheoli ymadawiad anifeiliaid unigol yn hytrach na chyfyngiadau ar fuchesi cyfan. Dylid ystyried profion mwy sensitif hefyd i ganfod haint gweddillol mewn gwartheg o fewn buchesi er mwyn lleihau'r risg y bydd buchesi yn dychwelyd i fod dan gyfyngiadau. Dylai defnyddioldeb, trefn a chanlyniad defnyddio profion amgen yn yr amgylchiadau hyn gael eu harchwilio'n llawn.

ii. Dylid asesu'r defnydd o brofion mwy sensitif cyn symud ac ar ôl symud i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â symudiadau gwartheg. Dylai archwilio'r defnydd o'r un dehongliad o brawf croen ag a ddefnyddir ar hyn o bryd cyn allforio i Ewrop, ar y cyd â DEFRA, fod yn flaenoriaeth. Dylid ystyried hefyd y defnydd o brawf gama interfferon a/neu serolegol fel prawf ar ôl symud, fel a argymhellir yn Niweddariad Adolygu bTB Godfray (2025).

- **Gwell mynediad at Unedau Bioddiogel a Chadwyn Gyflenwi Fioddiogel**

Ar gyfer buchesi o dan gyfyngiadau TB, mae angen mannau gwerthu masnachol priodol ar gyfer da byw sydd hefyd yn peidio â chynyddu'r risg o ledaenu TB trwy symudiadau gwartheg.

Gall heriau sy'n ymwneud â chyllid, seilwaith a rhwystrau rheoleiddiol gyfyngu ar ddatblygiad a gweithrediad AFUs (Unedau Pesgi Cymeradwy) neu unedau bioddiogel arbenigol eraill ar gyfer gwartheg o fuchesi dan gyfyngiadau. Dylid archwilio ffyrdd o gynyddu defnydd, capasiti ac ymarferoldeb cadwyn gyflenwi fioddiogel, heb wanhau mesurau diogelu ar gyfer rheoli'r clefyd, a dylid cynnal gwerthusiad i ganfod a yw'r rheolau presennol yn gymesur â'r risg. Mae cydweithio gyda diwydiant a gweinyddiaethau eraill yn hanfodol, gan gynnwys er mwyn cefnogi masnachu a symudiadau trawsffiniol a datblygu prosesau a gofynion cydymffurfio ar adeg sefydlu ac yn barhaus.

Dylid ystyried y defnydd o gynlluniau grant, cyllid seilwaith a chymhellion polisi i roi anogaeth i ddatblygu cyfleusterau bioddiogel o'r fath ac adolygiad o rwystrau rheoleiddiol ehangach, yn enwedig rheoliadau llygredd amgylcheddol ac amaethyddol, a allai gyfyngu ar ddatblygu cyfleusterau o'r fath, gan ystyried a yw'r rheolau presennol yn gymesur â'r risg.

Pobl:

- **Gwasanaeth Cynghori Newydd a Chynnwys Ffermwyr a Milfeddygon Preifat Lleol yn Fwy**

Mae bioddiogelwch priodol, gan gynnwys prynu gwybodus, yn parhau i fod yn linell amddiffyn hanfodol yn erbyn cyflwyno a lledaenu TB Gwartheg. Mae ymgysylltu â ffermwyr yn dibynnu ar ymddiriedaeth, perthnasedd ymarferol a pherchnogaeth. Dylai cyfathrebiadau ddefnyddio iaith glir, nad yw'n dechnegol, tystiolaeth leol a manteision busnes wedi'u meintioli lle bo hynny ar gael. Byddai cyngor milfeddygol wedi'i deilwra, cynnwys ffermwyr wrth gynllunio ar gyfer atal neu reoli'r clefyd yn rhanbarthol, cydnabyddiaeth i arferion bioddiogelwch cryf a chymorth ariannol ar gyfer gwelliannau ar y fferm yn helpu i wreiddio bioddiogelwch fel diwylliant ac arfer cyffredin o ran atal y clefyd.

Mae prosiectau a arweinir gan ffermwyr a milfeddygon yn Sir Benfro a Gogledd Cymru wedi dangos y manteision a geir pan fo milfeddygon a ffermwyr preifat sydd wedi'u huwchsgilio a'u grymuso'n gweithio gyda'i gilydd gyda mwy o berchnogaeth leol ar reoli'r clefyd. Dylai gwersi a ddysgwyd o brosiectau dan arweiniad ffermwyr a milfeddygon gael eu hadolygu a'u rhoi ar waith lle mae'r dystiolaeth yn ategu'r ddadl dros fabwysiadu ehangach ar lefel leol, ranbarthol neu genedlaethol, gan gynnwys galluogi ffermwyr, milfeddygon a rhanddeiliaid yn y diwydiant i sefydlu ac arwain grwpiau rheolaeth a gweithredu ar TB yn lleol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod y niferoedd sy'n manteisio ar ymweliadau Cymorth yn isel a dim ond ar ôl achos o TB mewn buches y mae'r ymweliad hwn yn cael ei gynnig. Dylid

lansio gwasanaeth cynghori newydd ar frys a chanddo bwrpas clir, cynnwys cryfach a model darparu a brofwyd yn y maes, a hwnnw'n cael ei gefnogi ond nid yn cael ei arwain o reidrwydd gan lywodraeth. Dylai'r gwasanaeth fod yn rhagweithiol nid dim ond yn adweithiol a bod ar gael i'r holl ffermydd a cheidwaid gwartheg fel mesur ataliol i gadw TB allan, yn ogystal â rhoi cymorth pan geir achos.

- **Gwell Mynediad at Ddata, Gwybodaeth am Risg ac ibTB**

Mae ar ffermwyr, milfeddygon preifat ac ymgynghorwyr angen mynediad gwell ac amserol at ddata ar y clefyd ar lefel fferm, gwybodaeth epidemiolegol a chanllawiau. Mae prosiect Sir Benfro wedi dangos gwerth data ar lefel fferm ac anifeiliaid i adnabod risgiau o'r clefyd a goleuo penderfyniadau rheoli a hwsmonaeth sy'n lleihau'r clefyd neu effaith i fusnesau neu'r risg iddynt. Dylid adolygu gwersi ac adborth o Brosiectau TB Sir Benfro a Gogledd Cymru ar frys a gweithredu opsiynau rheoli ar fyrder lle mae tystiolaeth yn ategu'r ddadl dros fabwysiadu ehangach. Yn yr un modd, dylid annog a defnyddio dulliau arloesol i ategu dull 'dysgu trwy wneud'.

Dylai ffermwyr, milfeddygon preifat ac APHA gael eu galluogi i gael a rhannu data profion croen TB ar lefel anifeiliaid mewn modd amserol a diogel i ategu penderfyniadau rheoli a masnachu buchesi. Dylid datblygu platfform rhyngweithiol fel blaenoriaeth, lle gall ffermwyr a milfeddygon preifat weld yr wybodaeth hon. Dylid archwilio defnyddioldeb data ar lefel fferm, megis sgoriau risg, a'r gofynion ar ei gyfer hefyd.

Mae data ar lefel anifeiliaid unigol ar gyfer buchesi Lloegr ar gael ar iBTB a dylid estyn ymarferoldeb cyfatebol i fuchesi Cymru cyn gynted â phosibl, yn amodol ar fesurau diogelu priodol rhag camddefnyddio a gwerthuso'r defnydd ohono. Byddai hyn yn darparu data TB ar adeg gwerthu fel y gall ffermwyr a phrynwyr eraill wneud penderfyniadau prynu gwybodus.

Dylai cymorth a hyfforddiant fod ar gael i ffermwyr a milfeddygon i'w galluogi i ddeall a defnyddio data a gwybodaeth yn effeithiol i adnabod risgiau TB, gwneud penderfyniadau rheoli i leihau risg a gweithio gyda milfeddygon i reoli achosion yn effeithiol.

Bywyd Gwyllt:

- **Casglu Data ar Rôl Bywyd Gwyllt mewn TB i Oleuo Penderfyniadau ynglŷn ag Ymyriadau Cymesur ac wedi'u Targedu**

Bydd angen i Gymru ddatblygu a gweithredu polisi ar gyfer atal trosglwyddiad *M. bovis* rhwng gwartheg a bywyd gwyllt fel rhan o'i huchelgais i ennill Statws Heb TB Swyddogol erbyn 2041. Mae tystiolaeth o bob rhan o'r DU yn dangos bod nifer yr achosion o'r clefyd a'i drosglwyddiad nid yn unig yn amlffactor ond hefyd yn benodol i leoliad. Rhaid darparu adnoddau llawn ar gyfer casglu tystiolaeth a gwybodaeth am lwybrau trosglwyddo clefydau bywyd gwyllt yma yng Nghymru gan roi blaenoriaeth i fodelu epidemiolegol ac economaidd.

Mae data, gan gynnwys data o'r Arolwg Cymru Gyfan o Foch Daear Marw, yn dangos bod cronfa *M. bovis* yn y moch daear. Mae angen mwy o dystiolaeth, gan gynnwys dealltwriaeth am boblogaethau moch daear (niferoedd, nifer yr achosion TB a strwythur y boblogaeth), priodoli tarddleoedd a llwybrau trosglwyddo lleol. Byddai'r data hyn yn adnabod ardaloedd lle ceir, ne lle na cheir, tystiolaeth o drosglwyddiad tebygol haint *M. bovis* rhwng bywyd gwyllt a gwartheg. Yn ei thro, gall y dystiolaeth hon adnabod ble y dylid cymryd camau ymyrryd cymesur wedi'u targedu, goleuo gwaith i fodelu gwahanol ymyriadau a helpu i lunio strategaethau cyflawni ac

ymadael priodol. Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth i ategu ystod o opsiynau bywyd gwyllt y gellid bwrw ymlaen â hwy, gan wneud defnydd llawn o gyfleoedd ar gyfer cydweithio a rhannu gwybodaeth.

Er mwyn deall mwy am TB ym mhoblogaeth moch daear, dylai Llywodraeth Cymru barhau i ariannu a hyrwyddo Arolwg Cymru Gyfan o Foch Daear Marw, gan bod hwn yn fanc gwybodaeth pwysig ar gyfer dysgu am y clefyd mewn bywyd gwyllt, ac archwilio dichonoldeb arolygu poblogaethau bywyd gwyllt, a allai gynnwys estyn yr Arolwg Cenedlaethol o Frochfeydd Moch Daear gan APHA sy'n mynd rhagddo yn Lloegr fel ei fod yn cwmpasu Cymru. Bydd wastad angen rhagor o ymchwil ar drosglwyddo'r clefyd. Fodd bynnag, ni ddylai'r gofyniad am ymchwil bellach arafu cynnydd.

Nid yw rôl ceirw gwyllt yn nhrosglwyddiad bTB yn cael ei deall yn dda yng Nghymru. O ystyried y gorgyffwrdd mynych rhwng cynefinoedd ceirw a thir pori gwartheg a milltir sgwâr ehangach ceirw, ceir risg gredadwy o drosglwyddo'r clefyd rhwng y rhywogaethau hyn. Dylai cynllun gwyliadwriaeth ceirw gwyllt gael ei gyd-ddylunio a'i roi ar waith gan ddefnyddio arbenigedd a phrofiad rhanddeiliaid i sicrhau bod y dull yn gymesur, yn cael ei oleuo gan wyddoniaeth ac yn berthnasol yn lleol.

- **Defnyddio Dadansoddiadau a Modelu Epidemiolegol i Ddeall Ffactorau sy'n Dylanwadu ar Drosglwyddo Clefyd ac i Fod yn Sail i Ymyriadau**

Mae'r defnydd o ddilyniannu genom cyfan (WGS) mewn gwartheg ac mewn bywyd gwyllt yn cynorthwyo Tîm Epidemiolegol APHA i fynd ati'n rhagweithiol i adnabod meysydd clefyd sy'n dod i'r amlwg neu sy'n esblygu. Byddai hefyd yn galluogi dull mwy cyfannol o reoli'r clefyd gan ddefnyddio offer dadansoddi a modelu i adnabod a tarddleoedd tebygol y gellid priodoli'r clefyd iddynt. Pan fo'r dystiolaeth epidemiolegol yn awgrymu bod risg o glefyd yn cylchredeg rhwng gwartheg a bywyd gwyllt, dylid ymyrryd. Byddai dadansoddiad systematig yn sicrhau y byddai'r ymyriad cywir, gyda metrigau wedi'u diffinio'n glir, yn cael ei ddefnyddio, yn seiliedig ar y ffactorau sy'n dylanwadu ar ledaeniad clefyd yn yr ardal leol.

Byddai integreiddio data'n well yn cryfhau ymdrechion i reoli'r clefyd hefyd. Byddai dwyn ynghyd setiau data ar ganfyddiadau arolygon o foch daear marw, symudiadau gwartheg, buchesi a heintiwyd â bTB, gwyliadwriaeth ar geirw a dilyniannu genomig mewn system unedig yn gallu bod o gymorth i adnabod meysydd clefyd sy'n dod i'r amlwg neu sy'n esblygu ar adeg gynharach a'i gwneud yn bosibl gweithredu ymyriadau priodol a monitro eu heffeithiau.

Dylai ymyriadau fod yn seiliedig ar dystiolaeth a chynnwys casglu data perthnasol i ddeall y darlun esblygol o ran y clefyd ac i fonitro effaith yr ymyriad a roddwyd ar waith. Dylent hefyd gynnwys strategaeth ymadael. Dylid defnyddio prosiectau peilot sydd ag adnoddau digonol i dreialu gwahanol ddulliau neu ymyriadau sy'n seiliedig ar ardal, a gaiff eu monitro wrth eu cyflawni i werthuso eu heffaith a dichonoldeb eu cynyddu yn unol â'r anghenion. Bydd hyn yn caniatáu dull 'dysgu trwy wneud' a fydd yn helpu i ddangos cynnydd pendant a goleuo prosesau i adolygu a diwygio strategaethau.

I Ategu'r Datblygiadau hyn, mae'r Bwrdd hefyd yn argymell y dylid cychwyn y camau canlynol:

Gwartheg:

- **Paratoi ar gyfer Brechu Gwartheg**

Rhaid parhau i ddatblygu argaeledd rhaglenni brechu gwartheg trwyddedig a phrofion DIVA a'u defnydd ymhellach fel offer o fewn pecyn ehangach o fesurau rheoli i'w defnyddio cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl ym Mhrydain Fawr. Mae hefyd yn hanfodol bod y disgwyliadau ynghylch brechu gwartheg yn cael eu rheoli'n realistig a bod Cymru'n parhau i weithio'n agos gyda gweinyddiaethau eraill y DU i ddatblygu a chyflwyno rhaglen brechu gwartheg, gan nad yw clefyd yn cydnabod ffiniau ac i gefnogi parhad masnach.

Rhaid i Gymru fod yn 'Barod ar gyfer Brechlyn Gwartheg' – gan weithio mewn partneriaeth. Dylai hyn gynnwys gweithgor rhanddeiliaid, i baratoi cyfathrebiadau, logisteg, systemau data, cynlluniau gweithredu a modelau defnyddio, gan gynnwys defnyddio Amlrywogaeth Cymru i gofnodi statws brechu ar lefel anifeiliaid a gwybodaeth arall ar gyfer rheoli'r clefyd. Fel a argymhellwyd gan Adolygiad Godfray (2025), o ystyried yr ansicrwydd a'r graddfeydd amser ar gyfer trwyddedu a defnyddio brechlyn gwartheg a phrawf croen DIVA, dylid rhoi ystyriaeth hefyd i ddatblygu dulliau amgen i alluogi defnydd wedi'i dargedu o frechiad BCG a phrofion DIVA ar adeg gynharach mewn mathau o fuchesi neu leoliadau buchesi penodol, a flaenoriaethir.

- **Adolygiad o Bolisi ar Adweithyddion Amhendant Llym a Gliriwyd**

Dylid adolygu'r dystiolaeth a gyhoeddwyd, pan fydd ar gael, i ystyried a ddylai polisi ar Adweithyddion Amhendant Llym a Gliriwyd gael ei alinio â'r polisi cyfredol ar Adweithyddion Amhendant Safonol a Gliriwyd. Dylai'r adolygiad hefyd ystyried y gwahaniaethau cyfredol yn y dehongliad o adweithyddion llym rhwng Cymru a Lloegr a pha un a oes angen aliniad.

Pobl:

- **Gwell Ymgysylltu ag APHA a Chymorth Rheoleiddiol**

Dylid defnyddio gwybodaeth leol yn systematig i oleuo gweithgarwch cyflawni. Dylid cryfhau cyfathrebu rhwng APHA, ceidwaid a milfeddygon preifat i gryfhau ymgysylltu i'r eithaf ac ategu cynnydd tuag at statws Heb TB Swyddogol.

Nid yw ymweliadau yn y cnawd gan filfeddygon APHA â ffermwyr ar ddechrau achos o TB, gan gynnwys cwblhau Ffurflen Hysbysu am Glefyd, yn cael eu cynnig fel rhan o'r drefn reolaidd mwyach. Mae ymgysylltu uniongyrchol o gymorth i fynd ati ar y cyd i leihau risg ar y daliad ac yn yr ardal gyfagos, ac yn darparu tystiolaeth epidemiolegol gryfach na gwybodaeth a gesglir o bell. Dylai cyfarfodydd cychwynnol ar ddechrau achos gynnwys milfeddyg achos a neilltuwyd gan APHA, y ceidwad a'r milfeddyg preifat lleol a chael eu cynnal gan ddefnyddio platfform wyneb-yn-wyneb fel Teams o leiaf. Mae parhad o ran Milfeddygon Achos a neilltuwyd i achos yn hanfodol ar gyfer meithrin ymddiriedaeth yn y broses, gwella perthnasoedd a gwella ymatebolrwydd. Byddai hyn yn dwyn manteision aruthrol ar gyfer rheoli'r clefyd, i ffermwyr ac i APHA.

Rhaid i gyfathrebu fod mewn iaith a fformat sy'n hygyrch ac yn hawdd ei ddeall, gan gynnwys yn Gymraeg ac yn Saesneg, er mwyn cael yr effaith fwyaf posibl. Mae hyn yn cynnwys cyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig rhwng APHA, ffermwyr a'u milfeddygon preifat yn ystod achosion a chyfyngiadau symud.

- **Gwell Mynediad at Wybodaeth a Chyngor TB**

Dylai gwybodaeth fod yn haws dod o hyd iddi, ymdrin â hi a'i chyrchu ar wefan Llywodraeth Cymru a dylai fod mewn iaith sy'n hawdd i'w deall. Dylai Llywodraeth Cymru wneud ymrwymiad y bydd deunydd sy'n benodol i Gymru yn cael ei ychwanegu at TB Hub fel ffynhonnell ddibynadwy ar gyfer gwybodaeth, tystiolaeth a chyngor ynghylch TB a chyfathrebiadau ynglŷn â TB i ffermwyr, gydag adnoddau priodol yn cael eu dyrannu yn ddi-oed.

Dylid cydlynu cyfathrebu ar draws Llywodraeth Cymru, APHA, milfeddygon preifat a chyrff rhanddeiliaid. Dylai negeseuon fod yn glir, yn ymarferol ac yn berthnasol yn lleol, gyda ffocws ar esbonio'r rhesymeg dros newidiadau arfaethedig, y manteision i fusnesau a rôl ffermwyr yn y broses o gynllunio ar gyfer rheoli'r clefyd.

Wrth roi newidiadau ar waith dylid sicrhau bod cyngor, cyfathrebiadau a gwybodaeth yn hygyrch i'r holl ffermwyr yr effeithir arnynt, gan gynnwys y rhai sydd â mynediad digidol cyfyngedig neu anghenion cymorth gwahanol a dylai fod ar gael yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddai system cefnogi cymheiriaid neu rwydweithiau cyfnewid gwybodaeth eraill o fudd i ffermwyr, gan flaenoriaethu'r rhai sy'n profi achos am y tro cyntaf. Cydnabyddir effaith y clefyd ar iechyd meddwl a chorfforol, ac mae'n hanfodol bod cymorth yn cael ei roi trwy ymgysylltu uniongyrchol rhwng ffermwyr, cyfarfodydd lleol, marchnadoedd, practisiau milfeddygol a fforymau'r diwydiant.

- **Aliniad Rheoleiddiol**

Dylid adolygu'r cydadwaith rhwng mesurau rheoli bTB a gofynion rheoleiddiol eraill, yn enwedig y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol, i leihau gwrthdaro sy'n effeithio ar lesiant unigol a phrosesau penderfynu busnesau. Mae'r risgiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â TB, gan gynnwys risgiau sy'n gysylltiedig â thail buarth a slyri, yn galw am asesu a chanllawiau mwy eglur.

Llywodraethu a Chyflawni

Mae'r Bwrdd yn argymell hefyd ei bod yn hanfodol:

- Y dylai capasiti cyflawni a pholisi pwrpasol ar gyfer TB gwartheg gael eu cadw o fewn APHA a Llywodraeth Cymru er mwyn osgoi colli ffocws yn ystod pwysau clefydau anifeiliaid sy'n cystadlu â'i gilydd.

- Y dylai trefniadau llywodraethu ddarparu arweinyddiaeth, atebolrwydd a goruchwyliaeth ar gyflawni sy'n eglur ar bob lefel ar gyfer gweithgareddau dileu TB gwartheg yng Nghymru ac y bydd angen iddynt esblygu rhwng y broses o ddatblygu'r strategaeth a'r broses o'i chyflawni.

- Rhaid modelu effeithiau unrhyw bolisi, gan gynnwys dadansoddiad eang o gostau a manteision ac asesiad effaith sy'n cwmpasu pob parti. Bydd hyn yn sicrhau bod mesurau polisi'n ymarferol, yn fforddiadwy ac yn rhoi gwerth am arian, bod y cyfaddawdau'n cael eu deall ac y gellir lliniaru unrhyw risgiau, gan hefyd gydnabod yr arbedion hirdymor posibl sy'n deillio o reoli'r clefyd yn well. Byddai hyn, ochr yn ochr â gwybodaeth epidemiolegol, o gymorth i sefydlu polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

- Rhaid i bolisi ac ymyriadau fod â mecanweithiau monitro wedi'u cynnwys ynddynt o'r dechrau a bod â metrigau clir y cytunwyd arnynt o ran sut y mae llwyddiant yn edrych. Dylid gwerthuso ymyriadau gan ddefnyddio set eang o ddangosyddion gan gynnwys newid ymddygiad, ymgysylltiad ffermwyr, ymgysylltiad milfeddygon, gwydnwch busnes a

mabwysiadu mesurau lleihau risg ochr yn ochr â chanlyniadau o ran lleihau'r clefyd. Bydd monitro a mesur ymyriadau, ochr yn ochr â chasglu data'n drylwyr a defnyddio tystiolaeth epidemiolegol, yn hanfodol i asesu effeithiolrwydd unrhyw ymyriad a roddir ar waith ac i oleuo a galluogi dull polisi a chyflawni addasol.

- Dylai cyfathrebiadau sy'n sicrhau argaeledd data a dehongliadau eglur a chyfoes fod ar gael i'r holl randdeiliaid, gan gynnwys y cyhoedd, gyda negeseuon allweddol yn esbonio'r rhesymau dros gamau gweithredu ac ymyriadau. Dylai cynllun cyfathrebu pwrpasol ar gyfer TB gynnwys rhaglen o astudiaethau achos a chynnwys ar draws llwyfannau fel Gwlad, rhannu gwybodaeth gyffredinol am TB, edrych ar wahanol faterion, gan gynnwys, ymhlith agweddau eraill, ddealltwriaeth am haint gweddilliol a materion canlyniadau profion negatif ffug yn hytrach na phositif ffug, a gwella dealltwriaeth yn raddol.

Casgliad

Mae cyflawni Cymru sy'n rhydd o bTB yn galw am gynllun hirdymor a rhaid bod adnoddau digonol wedi'u neilltuo a'u hariannu ar draws y llywodraeth a'r diwydiant i gyrraedd y nod uchelgeisiol hwnnw ac, yn y pen draw, lleihau costau uniongyrchol ac anuniongyrchol y clefyd. Mae'r argymhellion yn debygol o fod angen adnoddau gweithredol a chyfathrebu ychwanegol gan lywodraeth a gwahanol randdeiliaid, gan gynnwys cymorth ar gyfer ail-lansio gwasanaeth cynghori, cynnwys ar TB Hub sy'n ymwneud yn benodol â Chymru, gwell ymarferoldeb data, a chymhellion neu gymorth posibl ar gyfer gwelliannau i fioddiogelwch a seilwaith. "Bydd buddsoddi yn awr yn arbed arian yn y dyfodol". (Godfray et al 2025: 2)

Cydweithio a gweithio mewn partneriaeth ar bob lefel ac ar draws gweinyddiaethau yw'r allwedd i lwyddiant. Mae cyd-greu polisïau TB gyda rhanddeiliaid gan gynnwys ffermwyr, milfeddygon, cyrff y diwydiant, grwpiau bywyd gwyllt, y byd academaidd, APHA a Llywodraeth Cymru yn bwysig. Dylai'r holl randdeiliaid gyfathrebu'n adeiladol ac yn dryloyw ynghylch heriau cyfredol a heriau sy'n dod i'r amlwg. Nid yw'r clefyd yn cydnabod ffiniau felly dylid archwilio cyfleoedd i gydweithio ar ymchwil, tystiolaeth a rhannu arfer da gydag eraill, yn enwedig lle y bo'n fuddiol i osgoi heriau symud da byw a materion profi ar draws ffiniau.

Bydd y Bwrdd, ar y cyd â'r Grŵp Cynghori Technegol, yn parhau i adolygu tystiolaeth ac ystyried nifer o fesurau ac ymyriadau cyn paratoi cyngor pellach ar opsiynau i leihau bTB mewn gwartheg a bywyd gwyllt ac i leihau'r risg o drosglwyddo rhwng gwartheg a bywyd gwyllt.

Geirfa

AFU	Unedau Magu Cymeradwy
APHA	Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion
bTB	Twbercwlosis gwartheg
DEFRA	Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
DIVA	Gwahaniaethu rhwng Anifeiliaid wedi'u Brechu ac Anifeiliaid wedi'u Heintio
EMPB	Rheoli Manylach ar gyfer Buchesi ag Achosion Parhaus
ibTB	Offeryn rhyngweithiol sy'n mapio achosion o bTB yng Nghymru a Lloegr

IR	Adweithydd amhendant
M.bovis	*Mycobacterium bovis*
OTF	Statws Heb TB Swyddogol
TAG	Grŵp Cynghori Technegol TB Gwartheg Cymru
TB	Twbercwlosis
WGS	Dilyniannu Genom Cyfan
WOAH	Sefydliad Iechyd Anifeiliaid y Byd

Llyfryddiaeth:

[1] Diffiniad WOAH o'r hyn sy'n gwneud gwlad yn gymwys ar gyfer Statws Heb TB Swyddogol: Pennod 8
https://www.woah.org/fileadmin/Home/eng/Health_standards/tahc/2018/en_chapitre_bovine_tuberculosis.htm

[2] Papur Sefyllfa Bwrdd y Rhaglen TB Gwartheg (2026)
https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2026-03/papur-sefyllfa-bwrdd-rhaglen-tb-mewn-gwartheg-2026.pdf

[3] Diweddariad Adolygu bTB Godfray (2025)
https://assets.publishing.service.gov.uk/media/68d563169ce370a7e0a0fcfe/Godfray_bTB_Evidence_Review_Update_2025.pdf

[4] Strategaeth Rheoli TB Gwartheg Lloegr (2026)
2026-Recommended-Bovine-TB-Strategy.pdf

[5] Strategaeth Dileu TB mewn Gwartheg Gogledd Iwerddon (2022) Bovine Tuberculosis Eradication Strategy for Northern Ireland